# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ionawr 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

(13.35 - 13.40)

**3.5 SL(6)432 - Rheoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 24 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.40 - 13.45)

**4.4 SL(6)426 - Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 3 - 5)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 25 - Adroddiad

LJC(6)-02-24 - Papur 26 - Ymateb Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 - 13.55)

### 6.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

(Tudalen 6)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 - Papur 27 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Ionawr 2024

## 9 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Adroddiad drafft

(14.00 - 14.25) (Tudalennau 7 - 50)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-02-24 – Papur 17 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024***

<u>Pwynt Craffu Technegol 1:</u> Ym marn Llywodraeth Cymru nid oes angen diwygio rhaglith yr O.S. hwn am nad yw'r modd y'i drafftiwyd yn anghyffredin – gweler, er enghraifft, Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022 (2022/472) a gyfeiriodd at y Rheoliad UE hwn yn yr un modd yn eu rhaglith, na chafwyd pwynt adrodd yn ei gylch. At hynny, dyma hefyd yn union sut y cyfeirir at y Rheoliad UE hwnnw yn y Rheoliadau Seisnig drafft ac mae'r Rheoliadau Cymreig drafft yn adlewyrchu'r Rheoliadau Seisnig hynny.

<u>Pwynt Craffu Technegol 2:</u> Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y cyfeiriad at 3/4/2023 yn gywir gan mai dyma'r diffiniad technegol diweddaraf ar gyfer trin gwin ag asid ffwmarig i atal eplesu malolactig ac mae yn y fersiwn gyfredol o'r Cod Gwinyddol. Mae cyfeiriad 2021 (OENO 581A-2021) a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at gofnod penderfyniad gwreiddiol yr OIV i ganiatáu defnyddio asid ffwmarig i atal eplesu malolactig. Mae'r diffiniad (3/4/2023) yn rhagnodi yn union yr un driniaeth ar gyfer yr un amcan ag a ganiateir gan benderfyniad 2021.

<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:</u> Nid yw Llywodraeth Cymru wedi llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol am ddau reswm. Un rheswm yw bod y darpariaethau ar gyfer "gwin iâ" yn rhoi effaith i bolisi sydd eisoes wedi ei benderfynu gan Lywodraeth y DU pan lofnododd Brotocol Derbyn Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel ym mis Gorffennaf 2023, gan olygu nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddewis ond diwygio'r gyfraith. Y rheswm arall yw bod y newidiadau yn diweddaru rheoliadau i ganiatáu i fusnesau weithredu yn unol â Chod Ymarfer diweddaraf yr OIV, sef corff sy'n craffu ar newidiadau yn helaeth o safbwynt ymgynghorol a gwyddonol, ac mae'r newidiadau yn rhai y gwnaeth ymgynghori ar y rheoliadau ar lefel Prydain Fawr nodi cefnogaeth eang gan fusnesau, heb fod unrhyw bryderon am effeithiau negyddol.

Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y newidiadau a wneir i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/934 yn "helaeth". O gymharu â chwmpas mawr ac eang iawn y Cod Rhyngwladol ar Arferion Gwinyddol cyfan, prin yw'r newidiadau a dim ond yn gymwys i ambell agwedd ar arferion gwinyddol y maent. Ar y cyfan, ychwanegiadau i brosesau a ganiateir sy'n rhoi cyfle i fusnesau gwin fabwysiadu arferion newydd yw'r newidiadau a wneir i Dabl 1 o Atodiad 1 i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/934 gan Reoliad 3(5)(d). Mae'r arferion hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad, a phroses graffu helaeth yr OIV. Mae'r newidiadau a wneir gan yr Atodlen (Rheoliad 3(6)) yn ychwanegu at y rhestr o gyfansoddion gwinyddol awdurdodedig, neu'n diweddaru cyfansoddion sydd eisoes ar y rhestr honno, a restrir yn Nhabl 2 o Reoliad

Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/934. Drwy wneud y newidiadau hyn gall busnesau ddefnyddio'r rhestr gymeradwy fwyaf diweddar o gyfansoddion.

Mae'r newidiadau eu hunain yn dechnegol ac maent i gyd wedi eu cymeradwyo gan aelodau'r OIV, sy'n cynnwys y DU. Mae'r Cod yn gosod safonau rhyngwladol ar gyfer gwin ac felly mae'n berthnasol i fasnach ryngwladol. Drwy wneud y newidiadau gall busnesau Cymreig weithredu ar yr un telerau â busnesau eraill yn y DU a thu hwnt.

# SL(6)426 – Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi cyfnodau ar gyfer cofrestru arolygydd cofrestredig adeiladu a chymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu, yn nodi'r sancsiynau ar gyfer cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu ac yn ymdrin ag apelau ynghylch penderfyniad sydd wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru, sef yr awdurdod rheoleiddio o ran Cymru, o dan Ran 2A o Ddeddf Adeiladu 1984 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn rhagnodi'r cyfnod ar gyfer cofrestru arolygydd cofrestredig adeiladu.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r cyfnod ar gyfer cofrestru cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

Mae rheoliad 4 yn nodi, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn disgyblu, fod rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn disgyblu i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo cofrestriad cymeradwywr cofrestredig rheolaeth adeiladu wedi'i amrywio, wedi'i atal am gyfnod penodedig, neu wedi'i ganslo o ddyddiad penodedig.

Mae rheoliad 5 yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud neu'n dirymu gorchymyn o dan adran 58V o'r Ddeddf, fod rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi copi o'r gorchymyn atal dros dro interim i bob awdurdod lleol yng Nghymru pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y toriad a amheuir mor ddifrifol fel eu bod, os ydynt yn penderfynu bod y toriad wedi digwydd, yn debygol o wneud gorchymyn o dan adran 58U(2)(d) o'r Ddeddf yn canslo cofrestriad y person.

Mae rheoliad 6 yn ymwneud ag apelio penderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2A o'r Ddeddf.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn fod adran 1 o Ddeddf Adeiladu 1984 wedi’i nodi’n un o’r pwerau galluogi. A allech chi egluro ar ba is-adran(au) y dibynnir?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Adeiladu (Y Proffesiwn Rheolaeth Adeiladu) (Cofrestru, Sancsiynau ac Apelau) (Cymru) 2023***

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Yr is-adran y dibynnir arni yw is-adran (1).

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

12 fed Ionawr 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder yn cael ei gynnal gan Lywodraeth yr Alban yng Nghaeredin ar 25 fed Ionawr.

Mae disgwyl i'r cyfarfod gael ei gadeirio gan Angela Constance ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a Materion Cartref, a byddaf i yno yn bersonol yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfarfod yn debygol o ganolbwyntio ar amrywiol faterion sy'n ymwneud â Chapasiti Carchardai, Adfer y Llysoedd, a Chymorth Cyfreithiol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon